

Sŵn Adeiladu a Dymchwel

Gellir rheoli cwynion am sŵn o safleoedd adeiladu a dymchwel trwy ddefnyddio grymoedd deddfwriaethol o dan Adran 60 ac Adran 61 Deddf Rheoli Llygredd 1974.

Mae Adran 60 Deddf Rheoli Llygredd 1974 yn galluogi'r Awdurdod Lleol i gymryd camau gorfodaeth yn erbyn y contractwr/wyr sy'n gyfrifol am y gweithgareddau sy'n creu'r llygredd sŵn. Gellir cyflwyno'r hysbysiad cyn i'r gwaith gael ei wneud neu wrth i'r gwaith gael ei gyflawni.

Cyflwynir yr hysbysiad i'r person neu gwmni sy'n gyfrifol am y gwaith. Gall yr hysbysiad ragnodi pryd y gellir cyflawni'r gwaith a/neu fanylu pa beiriannau a ddylid eu defnyddio ar y safle.

Mae Adran 61 Deddf Rheoli Llygredd 1974 yn galluogi'r contractwr i wneud cais am ganiatâd ymlaen llaw gan yr Awdurdod Lleol. Rhaid darparu'r caniatâd hwn cyn i'r gwaith adeiladu neu ddymchwel gychwyn.

Mae'r caniatâd ymlaen llaw yn creu cytundeb rhwng y contractwr a'r Awdurdod Lleoli i sicrhau bod y sŵn sy'n deillio o'r gwaith arfaethedig yn cael ei gyfyngu gymaint byth ag y bo modd.

Unwaith y gwnaeth y contractwr gais am ganiatâd ymlaen llaw mae gan yr Awdurdod Lleol 28 diwrnod i:

- Dderbyn y cais yn ei gryswth a rhoi caniatâd
- Derbyn y cais ond rhoi caniatâd sy'n cynnwys amodau
- Gwrthod y cais.

Yna mae gan yr ymgeisydd gyfle i wneud apêl i'r llys ynadon o fewn 21 diwrnod i'r penderfyniad os gwrthodwyd eu cais, neu os ydynt yn teimlo fod amod yn afresymol neu na chafodd penderfyniad ei wneud gan yr Awdurdod Lleol o fewn 28 diwrnod.

Cynghorir ymgeiswyr i wneud cais drafft i'r Awdurdod Lleol, fel y gellir trafod unrhyw faterion a ddaw i'r golwg bryd hynny a'u cytuno wrth baratoi cyflwyno drafft terfynol y cais. Dylai hynny leihau unrhyw oedi yn ddiweddarach yn y broses.

Rhaid i'r cais Adran 61 a gyflwynir i'r Awdurdod Lleol gynnwys digon o fanylion. Dylai'r cais roi sylw i'r pwyntiau canlynol:

1. Enw, cyfeiriad cofrestredig a manylion cyswllt y contractwr
2. Enw a manylion cyswllt y person a enwyd y dylai'r Awdurdod Lleol gysylltu â nhw
3. Cynlluniau sy'n dangos yn glir leoliad y gwaith arfaethedig, lleoliad y safle, lleoliadau monitro sŵn a lleoliadau eiddo sy'n sensitif i sŵn
4. Manylion llawn y gwaith arfaethedig. Os yw'r datblygiad yn cynnwys sawl cam, dylid ystyried hefyd effaith gronol pob cam unigol
5. Y dull adeiladu y bwriedir ei ddefnyddio
6. Manylion llawn y peiriannau a ddefnyddir, sef y math, rhif a manylion manyleb
7. Yr oriau gwaith arfaethedig
8. Y rhesymwaith dros unrhyw waith y mae angen ei wneud y tu hwnt i oriau gwaith "arferol"
9. Cyfnod y caniatâd y gwneir cais amdano
10. Lefelau sŵn amgylcheddol a lefelau sŵn disgwylidig
11. Y camau y bwriedir eu cymryd i leihau lefelau sŵn a/neu ddirgrynu. (Dylid rhoi sylw i'r Dulliau Ymarferol Gorau a nodir yn Adran 72 Deddf Rheoli Llygredd 1974 a BS5228: 1997 Rheoli Sŵn a Dirgrynu mewn Safleoedd Adeiladu ac Agored).
12. Y camau y bwriedir eu cymryd i gysylltu â'r bobl leol, er enghraifft, cyfarfodydd, dosbarthu tafenni, danfon llythyrau. Dylid danfon copi o unrhyw ohebiaeth a ddanfonir at bobl leol at yr Awdurdod Lleol.
13. Manylion monitro cydymffurfiaeth a lleoliadau